**WG47346**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Ganllawiau Statudol ac Anstatudol a Chyfarwyddiadau a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mai 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

© Hawlfraint y Goron 2023
ISBN ddigiol 978-1-83504-011-9

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i Llywodraeth Leol: Canllawiau i Brif Gynghorau, ymgynghoriad ar Ganllawiau Statudol a Chyfarwyddiadau a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r:

Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: PolisiLlywLeol.Gohebiaeth@llyw.cymru

## Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori: Llywodraeth Leol: Dogfen ymgynghori Canllawiau i Brif Gynghorau

## Cynnwys

Cynnwys .... 3
Cyflwyniad .... 4
Gwybodaeth am y broses ymgynghori .... 4
Gwybodaeth am yr ymatebion .... 4
Crynodeb o'r Ymatebion .... 5

## Cyflwyniad

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021) yn cynnwys nifer o ddarpariaethau i hyrwyddo amrywiaeth a chyfranogiad mewn cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (prif gynghorau). Roedd angen datblygu canllawiau i gynghorau i gefnogi'r darpariaethau newydd hyn. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau, roedd hi'n amlwg y byddai angen diweddaru nifer o ddarnau cysylltiedig o ganllawiau presennol er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu, tôn ac iaith.

Y bwriad oedd y byddai canllawiau cynharach a roddwyd i brif gynghorau yn cael eu dirymu a'u disodli gan set newydd o ganllawiau statudol ac anstatudol cyfunol.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar y canllawiau cyfunol hyn i helpu cynghorau i gyflawni eu swyddogaethau o dan Ddeddf 2021, Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

## Gwybodaeth am y broses ymgynghori

Ymgysylltwyd yn helaeth â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), a chynghorau cyn yr ymgynghoriad ffurfiol. Roedd y canllawiau drafft a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn cynnwys y safbwyntiau a'r sylwadau a nodwyd fel rhan o'r gwaith ymgysylltu a oedd yn cryfhau'r canllawiau a gyhoeddwyd wedyn ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.

Gwahoddwyd safbwyntiau fel rhan o ymgynghoriad 19 wythnos ffurfiol rhwng 17 Mawrth a 22 Gorffennaf 2022. Cafodd yr ymgynghoriad ei ymestyn oherwydd bod yr etholiadau llywodraeth leol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2022. Roedd y dull hwn yn galluogi cynghorwyr hen a newydd i gyfrannu at ymatebion awdurdodau lleol unigol. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru a gofynnwyd am safbwyntiau ar y Canllawiau Statudol a Chyfarwyddiadau a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys dolenni at ganllawiau presennol a gwybodaeth am newidiadau arfaethedig i'r canllawiau presennol, ac yn cyflwyno meysydd canllawiau newydd. Cafodd set lawn o ganllawiau drafft eu cynnwys.

Mae manylion am yr ymgynghoriad ar gael yma.

## Gwybodaeth am yr ymatebion

Cyflwynwyd cyfanswm o 15 ymateb naill ai ar-lein neu drwy e-bost. Nid oedd un o'r ymatebwyr ar-lein wedi cyflwyno unrhyw atebion ac roedd dau ymateb yn codi materion a oedd y tu hwnt i gwmpas cwestiynau'r ymgynghoriad.

Gellir grwpio'r 15 ymatebwr i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

- 7 prif gyngor

- 1 wedi cyflwyno heb atebion
- 7 arall

Cwblhawyd saith ymateb ar-lein a chyflwynwyd wyth drwy e-bost. Ni chafwyd unrhyw ymatebion ar ffurf copi caled.

Fel rhan o’r broses ymgynghori, gofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent yn fodlon i’w manylion gael eu datgelu. Roedd un ymatebydd ar-lein yn dymuno aros yn ddienw ac nid oedd y chwe ymatebydd ar-lein arall wedi ateb y cwestiwn. Felly, nid ydym wedi rhyddhau manylion unrhyw un o’r ymatebwyr.

**Crynodeb o’r Ymatebion**

Bwriedir i’r ddogfen hon fod yn grynodeb o’r ymatebion a gafwyd. Nid yw’r adroddiad yn ceisio cofnodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr, yn hytrach mae’n tynnu sylw at y negeseuon allweddol wedi’u grwpio’n ôl themâu.
Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion yn cefnogi’r canllawiau drafft, ac roedd rhai ymatebwyr wedi rhoi sylwadau a gwybodaeth ddefnyddiol am effeithiau gweithredu’r canllawiau.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn 39 o gwestiynau. Mae crynodeb isod o’r ymatebion, yn ôl thema.

**Amser, hyd a lleoliad cyfarfodydd y cyngor**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i’r ymatebwyr:

> **C1** A yw’r canllawiau diwygiedig ar amseriad cyfarfodydd y cyngor yn ddigon clir ynghylch diben adolygu amseriad, hyd ac amlder holl gyfarfodydd y cyngor yn rheolaidd?
>
> **C2** A yw’r canllawiau ar amseriad cyfarfodydd y cyngor wedi mynd i’r afael yn ddigonol â chyd-destun cyfarfodydd aml-leoliad?
>
> **C3** A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech i’r canllawiau ar amseriad cyfarfodydd y cyngor roi sylw iddynt?

Roedd 90% o'r rheini a ymatebodd i C1 yn cytuno bod y canllawiau’n rhoi digon o gymorth i awdurdodau lleol ac yn annog hyblygrwydd o ran adolygu pryd a sut mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Roedd 100% o'r rheini a ymatebodd i C2 yn cytuno bod y canllawiau ar amseriad cyfarfodydd y cyngor wedi mynd i’r afael yn ddigonol â chyd-destun cyfarfodydd aml-leoliad. Roedd 75% o’r ymatebwyr wedi cynnig barn am faterion yn ymwneud ag amseriad cyfarfodydd y cyngor mewn ymateb i C3. Mae trosolwg o’r awgrymiadau a godwyd gan ymatebwyr ar gyfer y tri chwestiwn wedi’u nodi isod.

Roedd ymatebwyr yn pwysleisio bod angen i amgylchiadau aelodau unigol gael eu hystyried yn llawn wrth benderfynu ar drefniadau cyfarfodydd. Roedd ymatebwyr hefyd o’r farn y dylai trefniadau fod yn ddigon hyblyg i ymateb i newid mewn anghenion neu argaeledd cyn cyfarfodydd sydd wedi’u trefnu.

Er eu bod yn cydnabod manteision cael agwedd hyblyg at gyfarfodydd, mynegodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd asesu'r effaith ar adnoddau, rheoli disgwyliadau ynghylch hyblygrwydd a chydnabod efallai na fydd yn bosibl bodloni dewisiadau pawb a bod angen cyfaddawdu rhywfaint.

**Hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r ymatebwyr:

> **C4** A yw'r canllawiau diwygiedig ar hyfforddiant, datblygu a chymorth i aelodau etholedig wedi rhoi sylw i'r holl newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth?
>
> **C5** A yw'r adrannau ar gymorth wedi'i dargedu, a chymorth o ran llesiant aelodau etholedig, yn ddigonol?

Roedd 78% o'r rheini a ymatebodd i C4 yn cytuno bod y canllawiau diwygiedig wedi rhoi sylw i newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth a bod yr adrannau ynghylch cymorth i aelodau, gan gynnwys cymorth ar gyfer llesiant, yn ddigonol.

Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod efallai nad oedd hyfforddiant mor bellgyrhaeddol ag y byddai rhai grwpiau lobïo yn ei gefnogi, gan awgrymu bod y nifer fach o ddarparwyr a ddefnyddir i ddarparu hyfforddiant, yn enwedig mewn perthynas â rhyw, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, yn ffactor cyfyngol.

Roedd un ymatebydd wedi tynnu sylw at y ffaith bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei flaenoriaethu mewn rhaglen hyfforddiant barhaus sy'n aml yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau cyfreithiol aelodau. Cynhelir y meysydd hyfforddi hyn yn gynnar yn y rhaglen a gall rhai aelodau, sy'n cael eu hethol ganol tymor a/neu sy'n rheoli ymrwymiadau eraill, ei chael yn anodd manteisio ar yr holl gyfleoedd hyfforddi.

Roedd yr ymatebwyr wedi tynnu sylw at sawl maes hyfforddiant y teimlent y dylid eu cynnig i bob cynghorydd, gan gynnwys:

- Hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed
- Sut i herio tystiolaeth
- Safonau disgwyliedig a Chod Ymddygiad

Roedd 60% o'r rheini a ymatebodd i C5 yn cytuno bod y gefnogaeth benodol a'r gefnogaeth ar gyfer llesiant aelodau yn ddigonol yn y canllawiau. Teimlai ymatebwyr eraill y gallai'r canllawiau fynd ymhellach ac roeddent o'r farn y byddai'n fuddiol cael mwy o gyfeirio ar faterion llesiant, a gofyniad i gynghorau ddangos eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o ran cymorth a llesiant.

I'r gwrthwyneb, roedd nifer fach (1% o'r ymatebwyr) yn teimlo nad oedd y canllawiau ar lesiant yn ddefnyddiol, ac roeddent wedi tynnu sylw at enghreifftiau unigol lle'r oedd teimlad nad oedd aelodau wedi bodloni gofynion hyfforddi ar gyfer pwyllgorau penodol, fel pwyllgorau cynllunio.

**Cyhoeddi cyfeiriadau cartref aelodau**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r ymatebwyr:

> **C6** A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar farn Llywodraeth Cymru nad oes gofyniad statudol i gyfeiriadau cartref aelodau gael eu cynnwys wrth gyhoeddi'r

> gofrestr buddiannau aelodau, er bod yn rhaid i aelodau gofrestru eu cartref fel buddiant llesiannol o dan y Cod Ymddygiad?

Roedd pawb a ymatebodd i C6 yn cytuno na ddylai fod yn ofynnol i gyfeiriadau llawn aelodau gael eu cyhoeddi fel rhan o'r gofrestr buddiannau. Fodd bynnag, roedd cytundeb cyffredinol y dylai aelodau orfod datgan eu heiddo fel rhan o brosesau mewnol busnes y cyngor.

**Materion hyfforddi, datblygu a chefnogi pellach**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r ymatebwyr:

> **C7** A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech i'r canllawiau diwygiedig ar hyfforddiant, datblygu a chymorth i aelodau roi sylw iddynt?

Roedd 60% o'r rheini a ymatebodd i C7 wedi cynnig awgrymiadau am ystod eang o feysydd y gellid eu cynnwys mewn hyfforddiant a chymorth parhaus, fel sut i gyflawni rolau o bell a chymorth TGCh, diogelu, diogelwch wrth weithio ar eich pen eich hun, deall tystiolaeth, a hyfforddiant helaeth ar safonau a'r Cod Ymddygiad. Teimlai rhai ymatebwyr ei bod yn bwysig cael hyfforddiant parhaus mewn perthynas â safonau ac y dylai aelodau fod yn ymwybodol o'r canllawiau sydd ar gael iddynt ar hyfforddiant a chefnogaeth.

**Gwasanaethau a chymorth ymchwil ar gyfer aelodau etholedig**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r ymatebwyr:

> **C8** A yw'r canllawiau ar gymorth ymchwil a gwasanaethau i aelodau etholedig yn rhoi digon o enghreifftiau o'r materion y dylai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd edrych arnynt wrth ystyried a oes gan y pennaeth gwasanaethau democrataidd ddigon o staff ac adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau, ym marn y pwyllgor?
>
> **C9** A yw'r canllawiau'n egluro'n glir mai'r bwriad yw datblygu capasiti ar gyfer cymorth ymchwil dros amser ac y dylai fod gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r pennaeth gwasanethau democrataidd strategaeth ar gyfer hyn?
>
> **C10** A oes unrhyw faterion neu sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r canllawiau ar gymorth ymchwil a gwasanaethau i aelodau etholedig?

Roedd 11% o'r rheini a ymatebodd i C8 yn anghytuno bod y canllawiau'n darparu digon o enghreifftiau o'r materion y dylai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eu hystyried wrth ystyried a oes gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ddigon o staff ac adnoddau i gyflawni ei swyddogaeth. Teimlai 44% fod y canllawiau'n ddigonol ac roedd gweddill yr ymatebwyr yn cynnig awgrymiadau, sy'n cael eu nodi isod.

Cafwyd sylwadau am adnoddau a chapasiti yn gyffredinol. Roedd themâu allweddol yn canolbwyntio ar argaeledd a hygyrchedd gwybodaeth, hyblygrwydd, cyfyngiadau o ran cyllideb a chapasiti, deall beth sydd ar waith ar hyn o bryd, a datblygu protocolau a phrosesau.

Er bod y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i C9 (75%) yn cytuno bod y canllawiau'n ceisio rheoli disgwyliadau y bydd angen datblygu capasiti ar gyfer cymorth ymchwil i aelodau dros amser, manteisiodd llawer ar y cyfle hwn i bwysleisio anawsterau o ran lefelau presennol o gefnogaeth i aelodau'r meinciau cefn o'i gymharu ag aelodau gweithredol. Teimlai rhai ymatebwyr (25%) na fyddai'r canllawiau'n helpu i reoli disgwyliadau.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys nodi llinell sylfaen y ddarpariaeth bresennol y gellir datblygu prosesau a strategaeth arni.

Roedd 87% o'r rheini a ymatebodd i C10 wedi nodi amrywiaeth o feysydd. Nid oedd y 33% arall wedi nodi materion nac awgrymiadau. Mynegwyd pryderon cyffredinol ynghylch y potensial i aelodau nodi ystod eang iawn o faterion y byddent eisiau cymorth ar eu cyfer, a'r posibilrwydd y byddai agendâu sy'n cystadlu â'i gilydd yn gwanhau effeithiolrwydd unrhyw gefnogaeth sydd ar gael.

Teimlai ymatebwyr ei bod yn hanfodol bod adnoddau'n cael eu defnyddio i sicrhau bod gan aelodau'r wybodaeth briodol i seilio penderfyniadau gwybodus arni o fewn eu pwerau gwneud penderfyniadau, a'r gallu i ymateb yn hyblyg i sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg ac sy'n newid.

**Strategaethau cyfranogiad y cyhoedd**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r ymatebwyr:

> **C11** A yw'r canllawiau yn Adran 1 yr ymgynghoriad hwn yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys y model cymdeithasol o anabledd?
>
> **C12** A oes unrhyw beth pellach y gallai'r canllawiau ei awgrymu i gryfhau'r angen i ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys y model cymdeithasol o anabledd, wrth ddatblygu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd?
>
> **C13** A oes unrhyw beth pellach y gallai'r canllawiau ei awgrymu i gryfhau'r angen i ystyried y Gymraeg wrth ddatblygu'r strategaeth cyfranogiad y cyhoedd?
>
> **C14** A yw'r canllawiau'n ddigon clir y bwriedir i strategaeth cyfranogiad y cyhoedd weithio mewn cytgord â'r dyletswyddau statudol presennol sy'n ymdrin ag ymwneud gan y cyhoedd a chyfranogiad y cyhoedd, drwy ganolbwyntio'n benodol ar gyfranogiad y cyhoedd ym mhrosesau democrataidd y cyngor fel y nodir yn adran 40(2) o Ddeddf 2021?
>
> **C15** A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn y canllawiau ar strategaethau cyfranogiad y cyhoedd?

Roedd 44% o'r rheini a ymatebodd i C11 yn cytuno bod y canllawiau yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys y model cymdeithasol o anabledd. Awgrymodd ymatebwyr eraill y gallai'r canllawiau fynd ymhellach, ac roeddent wedi nodi'r awgrymiadau isod.

Roedd ymatebwyr yn croesawu darpariaethau'r Ddeddf i hyrwyddo amrywiaeth a chyfranogiad mewn prif gynghorau gan gynnwys darpariaeth i gyhoeddi canllawiau

i’r weithrediaeth mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth ei aelodaeth. Roedd y themâu allweddol a godwyd yn cynnwys ehangu’r canllawiau gan gyfeirio at ddyletswyddau statudol cynghorau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, er enghraifft y ddyletswydd i asesu a’r ddyletswydd i ymgysylltu.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys archwilio a gweithredu ar wahaniaethau o ‘gred warchodedig’ a’r gallu i adlewyrchu amrywiaeth barn wrth ddylunio a darparu gwasanaethau neu ymgynghoriadau.

Roedd 89% o'r rheini a ymatebodd i C12 wedi cynnig ffyrdd pellach o gryfhau’r canllawiau i ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys y model cymdeithasol o anabledd, wrth ddatblygu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd.

Tynnodd ymatebwyr sylw at y potensial i gryfhau’r canllawiau mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddatblygu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd a sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth ar gael i’r cyhoedd.  Roedd awgrymiadau’n ymwneud â hygyrchedd yn cynnwys annog ac ymgorffori fersiynau BSL, Braille a Hawdd eu Darllen.

Nodwyd pwysigrwydd cydnabod a mynd i’r afael â materion yn ymwneud â hunaniaeth rhywedd a nodweddion gwarchodedig, a sicrhau nad yw lleisiau’n cael eu heithrio wrth ddatblygu strategaethau cyfranogiad y cyhoedd.

Nodwyd y weithdrefn gwyno fel maes y gellid ei gryfhau i gynnwys hwyluso mynediad at wybodaeth am gwynion sy’n ymwneud â'r cyngor a’i aelodau etholedig, a chodi ymwybyddiaeth o’r wybodaeth honno.  Roedd awgrymiadau pellach yn cynnwys y potensial i alluogi ymchwilio i gwynion yn allanol yn gynharach mewn achosion cwynion, a phwysigrwydd data pan fydd pwyllgorau’n edrych ar berfformiad ac adborth ar gamau a gymerwyd.

Dywedodd 78% o'r rheini a ymatebodd i C13 nad oedd angen i’r canllawiau fynd ymhellach i ystyried y Gymraeg wrth ddatblygu’r strategaeth cyfranogiad y cyhoedd. Roedd sylwadau gweddill yr ymatebwyr yn ymwneud â sicrhau bod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu bodloni ynghyd â Safonau’r Gymraeg.

Roedd rhaniad ymysg ymatebwyr i C14 ynghylch a yw’r canllawiau’n ddigon clir bod y strategaeth cyfranogiad y cyhoedd wedi’i bwriadu i gyd-fynd â’r dyletswyddau statudol presennol. Roedd 60% o'r rheini a ymatebodd i C14 yn teimlo bod y canllawiau’n ddigon clir.  O’r 40% arall, awgrymodd y rhai a roddodd sylwadau y dylid cael eglurhad a chanllawiau penodol ynghylch gwneud penderfyniadau pan fydd y penderfyniadau hynny’n benderfyniadau dirprwyedig.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys sicrhau bod asesiadau effaith yn ymgysylltu’n weithredol â chymunedau y mae polisi’n effeithio arnynt i sicrhau bod effeithiau ar gymunedau amrywiol yn cael eu cydnabod yn llawn ac yn cael sylw.

Nid oedd gan 75% o'r rheini a ymatebodd i C15 unrhyw faterion pellach yr oeddent yn dymuno eu cynnwys yn y canllawiau ar strategaethau cyfranogiad y cyhoedd. Roedd y materion a godwyd gan yr ymatebwyr a oedd yn weddill yn cynnwys awgrym y byddai cyfeirio pellach yn helpu yn y canllawiau, fel cyfeirio at yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â’r Cyhoedd yng Nghymru.

**Cynlluniau deisebau**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r ymatebwyr:

> **C16** A yw'r cydbwysedd yn y canllawiau ar gynlluniau deisebau rhwng egwyddorion arweiniol a disgresiwn lleol o gymorth?
>
> **C17** A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn y canllawiau ar gynlluniau deisebau?

Roedd 75% o'r rheini a ymatebodd i C16 o'r farn bod y canllawiau'n ddefnyddiol o ran darparu egwyddorion arweiniol. Roedd un ymatebydd yn anghytuno, ond ni roddodd sylwadau i gefnogi ei farn. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid cael mwy o eglurder ynghylch cylch gwaith y cyngor i sicrhau bod y cyhoedd yn deall yr hyn y gall ac na all cynghorau ei wneud.

Nid oedd gan 75% o'r rheini a ymatebodd i C17 unrhyw faterion pellach yr oeddent yn dymuno eu cynnwys yn y canllawiau ar gynlluniau deisebau. O'r ymatebwyr eraill, roedd y materion a godwyd yn cynnwys ystyriaeth bellach o drothwyon deisebau a phryderon ynghylch cynllunio deisebau.

**Cyfansoddiadau a'r cyfarwyddyd diwygiedig ar y cyfansoddiad**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r ymatebwyr:

> **C18** A yw'r canllawiau diwygiedig ar gyfansoddiadau a'r cyfarwyddyd diwygiedig ar y cyfansoddiad yn cynnwys cyfeiriadau at yr holl newidiadau deddfwriaethol y byddech yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys?
>
> **C19** A yw'r canllawiau ar yr arweiniad i'r cyfansoddiad yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng egwyddorion arweiniol a disgresiwn lleol?
>
> **C20** A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill mewn perthynas â'r canllawiau ar y cyfansoddiad, yr arweiniad i'r cyfansoddiad neu gyfarwyddyd y cyfansoddiad?

Roedd 100% o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau yn C18 yn fodlon bod y canllawiau'n cynnwys y cyfeiriadau perthnasol at y newidiadau deddfwriaethol ac yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng egwyddorion arweiniol a disgresiwn lleol. Teimlwyd bod y sylwadau a godwyd cyn yr ymgynghoriad ffurfiol wedi cael eu hymgorffori.

Roedd 100% o'r rheini a ymatebodd i C19 yn cytuno bod y canllawiau ar yr arweiniad i'r cyfansoddiad yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng egwyddorion arweiniol a disgresiwn lleol.

Roedd 57% o'r rheini a ymatebodd i C20 wedi rhoi sylwadau neu awgrymiadau mewn perthynas â'r arweiniad i'r cyfansoddiad neu gyfarwyddyd y cyfansoddiad. Roedd y rhain yn cynnwys sylwadau am ddiwygio cyfansoddiadau, dirprwyo pwerau, penodi aelodau i gyrff eraill a hefyd sicrhau bod materion gweithredol yn cael eu cynnwys mewn mannau megis cylch gorchwyl neu drwy eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn hytrach na'u cynnwys yn y cyfansoddiad.

**Arfer swyddogaethau**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r ymatebwyr:

> **C21** A oes unrhyw beth pellach y dylid ei gynnwys yn y canllawiau ar arfer swyddogaethau gan gynghorwyr?
>
> **C22** A oes rhagor o gyfeiriadau at ddeddfwriaeth a wnaed ers cyhoeddi'r canllawiau ar arfer swyddogaethau gan gynghorwyr y dylid eu cynnwys?
>
> **C23** A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei weld yn cael ei gynnwys yn y canllawiau ar rannu swyddi ar gyfer aelodau'r weithrediaeth?
>
> **C24** A oes unrhyw beth pellach yr hoffech ei weld yn cael ei gynnwys yn y canllawiau ar gynorthwywyr i'r weithrediaeth?

Nid oedd gan 57% o'r rheini a ymatebodd i C21 awgrymiadau i'w cynnwys yn y canllawiau ar arfer swyddogaethau gan gynghorwyr.

O'r ymatebwyr eraill, roedd un ymatebwr wedi canolbwyntio ar arfer swyddogaethau cynghorwyr yn y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd yr ymatebwyr eraill wedi tynnu sylw at pan fo awdurdod yn gweithredu wardiau un aelod, mae'r bwriad i ddirprwyo'r broses o wneud penderfyniadau i aelodau unigol, ac eithrio aelodau'r Cabinet, yn golygu na fydd wardiau sydd ag aelodau o'r Cabinet yn elwa o'r trefniant. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylid ystyried hyn ymhellach oherwydd risg uwch y bydd aelodau'n agored i fuddiannau personol a rhagfarnus a gwrthdaro rhwng buddiannau wrth wneud penderfyniadau.

Roedd 100% o'r rheini a ymatebodd i C22 yn cytuno nad oes angen rhagor o gyfeiriadau at ddeddfwriaeth a wnaed ers cyhoeddi'r canllawiau ar arfer swyddogaethau gan gynghorwyr.

Roedd 88% o'r rheini a ymatebodd i C23 yn teimlo bod y canllawiau ar rannu swyddi ar gyfer aelodau gweithredol yn ddigonol.

Teimlai rhai ymatebwyr y gallai'r canllawiau elwa o gael mwy o eglurder ynghylch: nifer yr aelodau a allai fod yn rhan o drefniant rhannu swydd, gwrthdaro rhwng buddiannau, yr effaith ar weithdrefnau sefydliadau allanol lle mae'r cyngor yn cael ei gynrychioli a threfniadau pleidleisio.

Dywedodd 75% o'r rhai a ymatebodd i C24 nad oedd unrhyw beth pellach yr hoffent ei weld yn cael ei gynnwys yn y canllawiau ar gynorthwywyr i'r weithrediaeth. Roedd y meysydd a godwyd gan ymatebwyr eraill yn cynnwys effaith cynorthwywyr ar gyfrifo dyraniad Cadeiryddion Trosolwg a Chraffu.

### Trosolwg a chraffu

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r ymatebwyr:

> **C25** A oes unrhyw beth pellach yr hoffech ei weld yn cael ei gynnwys yn y canllawiau i gabinetau ar drosolwg a chraffu effeithiol?
>
> **C26** A yw'r set ddiwygiedig o ganllawiau sy'n ymwneud â throsolwg a chraffu yn adlewyrchu'r holl newidiadau deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r cyd-destun y mae craffu'n digwydd ynddo?

**C27** A oes unrhyw faterion eraill y dylid eu hadlewyrchu yn unrhyw un o'r canllawiau ar graffu; er enghraifft, a fyddai canllawiau pellach mewn perthynas â chydbwyllgorau corfforedig yn ddefnyddiol?

Roedd 71% o'r rheini a ymatebodd i C25 o'r farn bod y canllawiau i gabinetau yn ddigonol, ac roedd 86% o'r rheini a ymatebodd i C26 o'r farn bod y canllawiau'n adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r cyd-destun y mae craffu'n digwydd ynddo.

Roedd sylwadau a gafwyd gan weddill yr ymatebwyr yn awgrymu y byddai'r canllawiau'n elwa o groesgyfeirio ychwanegol at ganllawiau ar Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio i wahaniaethu rhwng rolau'r pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Yn ogystal, dylid cyfeirio'n benodol at y berthynas rhwng y Cabinet a'r pwyllgorau craffu, gan gynnwys protocolau ar sut y gallai hyn weithio'n ymarferol i hybu perthynas waith agosach.

Dywedodd un ymatebydd y dylai craffu fod yn rhan annatod o hunanasesiad y cyngor o dan Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a dylid hefyd ei ystyried pan fydd y cyngor yn trefnu ei asesiad panel.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys canllawiau cryfach ar gyfer cynllunio craffu a chyfarfodydd paratoi.

Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i C27 (71%) wedi nodi materion pellach y dylid, yn eu barn nhw, gael eu hadlewyrchu yn y canllawiau ar graffu. Roedd Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ffocws allweddol i'r ymatebwyr. Roedd y prif feysydd a godwyd yn cynnwys darparu digon o adnoddau i alluogi holl gynrychiolwyr awdurdodau lleol i gefnogi craffu, a sicrhau bod pwrpas strategol y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r cyfrifoldebau cyflawni yn cael eu deall.

Roedd hefyd yn allweddol i'r ymatebwyr fod cysylltiadau adeiladol yn cael eu datblygu ar bob lefel i gefnogi craffu, a dylai'r canllawiau gyfeirio'n benodol at y berthynas â'r arweinydd, aelodau'r cabinet, y prif weithredwr a'r uwch swyddogion. Gwnaed sylwadau pellach am sesiynau cynllunio craffu yn trafod strategaethau holi a rolau aelodau cyfetholedig o fewn pwyllgorau craffu.

### Pwyllgorau gwasanaethau democrataidd

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r ymatebwyr:

**C28** A oes unrhyw gyfeiriadau pellach at ddeddfwriaeth berthnasol y dylid eu cynnwys yn y canllawiau ar bwyllgorau gwasanaethau democrataidd?

**C29** A oes unrhyw beth pellach y credwch y dylid ei gynnwys yn y canllawiau ar bwyllgorau gwasanaethau democrataidd?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau'n ddigonol mewn perthynas â'r pwyntiau uchod – 87% o'r ymatebwyr ar gyfer C28 a 71% o'r ymatebwyr ar gyfer C29. Roedd yr awgrymiadau a gafwyd yn cynnwys croesgyfeirio â'r canllawiau newydd a disgwyliadau gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o ran gwasanaethau a chymorth ymchwil cynghorwyr.

Awgrymodd ymatebwyr y byddai'r canllawiau'n elwa o eglurhad pellach ar swyddogaethau statudol presennol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Dywedodd ymatebydd arall, er bod cynrychiolaeth wleidyddol Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi'i chynnwys yn y canllawiau, nid yw cynrychiolaeth wleidyddol is-gadeirydd yn cael ei chynnwys.

**Pwyllgorau llywodraethu ac archwilio**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r ymatebwyr:

> **C30** A yw'r canllawiau diwygiedig ar bwyllgorau llywodraethu ac archwilio yn adlewyrchu'r holl newidiadau deddfwriaethol perthnasol?
>
> **C31** A yw'r canllawiau diwygiedig yn adlewyrchu'r newidiadau yn y cyd-destun y mae pwyllgorau llywodraethu ac archwilio bellach yn gweithredu ynddo?
>
> **C32** A yw'r cyngor ar y canllawiau ar y ddyletswydd newydd ar bwyllgorau llywodraethu ac archwilio sy'n ymwneud ag adran 89 o Ddeddf 2021 yn ddigonol?
>
> **C33** A yw'r canllawiau ar y ddyletswydd newydd ar bwyllgorau llywodraethu ac archwilio i adolygu ac asesu effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion corfforaethol a chwynion am wasanaethau yn ddigonol?
>
> **C34** A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei weld yn cael ei gynnwys yn y canllawiau ar bwyllgorau llywodraethu ac archwilio?

Teimlai 100% o'r rhai a ymatebodd i C30 fod y canllawiau ar bwyllgorau llywodraethu ac archwilio yn adlewyrchu'r newidiadau mewn deddfwriaeth yn briodol.

Roedd 100% o'r rhai a ymatebodd i C31 yn cytuno bod y canllawiau diwygiedig yn adlewyrchu'r newidiadau yn y cyd-destun y mae pwyllgorau llywodraethu ac archwilio bellach yn gweithredu ynddo. Awgrymodd un ymatebydd y byddai rhagor o enghreifftiau, fel yr enghraifft o rolau Llywodraethu ac Archwilio a Throsolwg a Chraffu, yn ddefnyddiol.

Roedd 86% o'r rhai a ymatebodd i C32 yn cytuno bod y cyngor ar y canllawiau ar y ddyletswydd newydd ar bwyllgorau llywodraethu ac archwilio sy'n ymwneud ag adran 89 o Ddeddf 2021 yn ddigonol. Roedd un sylw yn nodi y dylid cynnwys y potensial ar gyfer croesgyfeirio at y canllawiau ar Berfformiad a Llywodraethu prif gynghorau.

Roedd 86% o'r rhai a ymatebodd i C33 yn cytuno bod y ddyletswydd newydd ar bwyllgorau llywodraethu ac archwilio i adolygu ac asesu effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion corfforaethol a chwynion am wasanaethau yn ddigonol.

Rhoddodd 63% o'r rheini a ymatebodd i C34 awgrymiadau i'w cynnwys yn y canllawiau ar bwyllgorau llywodraethu ac archwilio. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o eglurder ynghylch y bwriad y tu ôl i'r polisi sy'n nodi nad yw'n ofynnol i Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelod lleyg, ond ei bod yn ofynnol i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg.

Ar ben hynny, awgrymwyd y dylai’r canllawiau gynnwys disgwyliad bod asesiad y Pwyllgor o’r ffordd y mae’r awdurdod wedi delio â chwynion yn cael ei roi i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a bod y Pwyllgor yn ymgysylltu’n llawn â’r Ombwdsmon i sicrhau gwelliannau mewn ffordd gadarnhaol.

**Cynorthwywyr gwleidyddol**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i’r ymatebwyr:

> **C35** A yw’r canllawiau anstatudol ar gynorthwywyr gwleidyddol yn ddefnyddiol er mwyn tynnu sylw at y ddeddfwriaeth berthnasol?
>
> **C36** A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei weld yn cael ei gynnwys yn y canllawiau anstatudol ar gynorthwywyr gwleidyddol?

Roedd 100% o'r rheini a ymatebodd i C35 yn cytuno bod y canllawiau anstatudol yn ddefnyddiol i dynnu sylw at y ddeddfwriaeth berthnasol. Dywedodd 83% o'r rheini a ymatebodd i C36 nad oedd angen cynnwys unrhyw beth arall yn y canllawiau.

Awgrymodd un ymatebydd i C36 y byddai’r canllawiau’n elwa o gael rhagor o wybodaeth am sut y gellid cyflawni’r adroddiadau perfformiad ‘deuol’ i grŵp gwleidyddol a rheolwr proffesiynol, a sut y gellid datrys unrhyw faterion sy’n gwrthdaro yn ymwneud â pherfformiad neu weithgarwch gwleidyddol amhriodol. Awgrymodd yr un ymatebydd y byddai’n briodol adolygu ac adnewyddu’r ddeddfwriaeth ar gyfer cynorthwywyr gwleidyddol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

**Y canllawiau statudol ac anstatudol a’r Gymraeg**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i’r ymatebwyr:

> **C37** Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg - yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau hyn yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?
>
> **C38** Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai’r canllawiau statudol ac anstatudol arfaethedig gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Roedd 50% o'r rheini a ymatebodd i C37 yn cynnig safbwyntiau am yr effeithiau y byddai’r canllawiau’n eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Roedd 50% o'r rheini a ymatebodd i C38 hefyd wedi cynnig eu barn ar sut y gellid llunio neu newid y canllawiau arfaethedig mewn perthynas â’r mater hwn.

Cytunwyd yn gyffredinol bod y canllawiau’n glir ac y dylai awdurdodau lleol roi sylw i’w dyletswyddau statudol mewn perthynas â’r Gymraeg. Teimlwyd bod cyfle i

gynyddu’r effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, os yw gwybodaeth sy’n nodi gofynion Safonau’r Gymraeg a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Lleol yn cael ei chynnwys mewn gwybodaeth, hyfforddiant a chefnogaeth a ddarperir i aelodau.

Roedd un ymatebwr wedi tynnu sylw at bwysigrwydd galluogi aelodau etholedig i ddewis a derbyn gwybodaeth yn eu dewis iaith.

**Unrhyw faterion cysylltiedig nad ydynt wedi cael sylw penodol**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i’r ymatebwyr:

> **C39** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Cafwyd awgrymiadau gan 86% o’r rheini a ymatebodd i C39.

Awgrymwyd bod pob cyfeiriad at daliadau a lwfansau yn cyfeirio at Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a’r diwygiadau dilynol, ac at bwerau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol.

Mynegodd un ymatebydd bryderon ynghylch gallu’r canllawiau i gefnogi’r gwaith o gyflawni cydraddoldeb ac amrywiaeth ac y gallai aelodau o gymunedau gael eu heithrio.

Roedd un ymatebydd wedi mynegi pryder ynghylch gallu awdurdodau lleol i weithredu gofynion ychwanegol yn y canllawiau’n gywir oherwydd pwysau o ran adnoddau.

Tynnwyd sylw at gysondeb yr iaith a ddefnyddir yn y canllawiau, ynghyd ag eglurhad ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn gyfarfod ‘penodedig’ mewn perthynas â chyfarfodydd darlledu.